# Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020

**2020 dsc 2**

*Cyffredinol*

**11 Rheoliadau**

(1) Mae Rheoliadau o dan y Ddeddf hon i'w gwneud gan Weinidogion Cymru.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon—

(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol, a

(b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

(3) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 11 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

**12 Dod i rym**

Daw'r Ddeddf hon i rym ar 1 Rhagfyr 2020.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 12 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

**13 Enw byr**

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 13 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020, Croes Bennawd: Cyffredinol.